**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**

Yr Athro Wendy Larner
Llywydd ac Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd

17 Chwefror 2025

**Cais i ymddangos gerbron y Pwyllgor**

Annwyl Athro Larner,

Fel Pwyllgor y Senedd sy'n gyfrifol am graffu ar bolisi a deddfwriaeth sy'n ymwneud ag addysg, rydym wedi cymryd diddordeb mawr yn eich datganiad dyddiedig 28 Ionawr[1] a'r ymateb i'r datganiad hwnnw gan wahanol randdeiliaid. Nodwn fod y cynigion a gyhoeddwyd ar 28 Ionawr yn destun ymgynghoriad ffurfiol 90 diwrnod. Rydym hefyd yn nodi eich bod yn rhagweld y bydd y cynigion penodol yn cael eu mireinio a'u datblygu dros y 90 diwrnod nesaf o ganlyniad i'r broses ymgynghori honno.

Gofynnwn felly i chi ymddangos gerbron y Pwyllgor i roi tystiolaeth gyhoeddus yn fuan ar ôl i'r ymgynghoriad ffurfiol ddod i ben. Hoffem drafod y camau a arweiniodd at eich cyhoeddiad ar 28 Ionawr gyda chi, y pryderon a godwyd gan amrywiol randdeiliaid mewn perthynas â'ch cynigion, a sut mae y cyfnod ymgynghori wedi llunio'r cynlluniau terfynol, yr ydych yn rhagweld y byddant yn cael eu cymeradwyo gan Gyngor y Brifysgol ym mis Mehefin 2025.

Rydym yn cynnig sesiwn dystiolaeth awr o hyd naill ai ddydd Iau 1 Mai neu, ddydd Mercher 14 Mai. Cysylltwch â'n clercod cyn gynted â phosibl i gytuno ar amser a dyddiad os gwelwch yn dda.

Yn y cyfamser, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb yn ysgrifenedig i'r cwestiynau a nodir yn Atodiad A, a hynny erbyn dydd Gwener 21 Mawrth fan bellaf. Bydd eich ymatebion yn helpu i lywio ein dealltwriaeth o gyd-destun eich cyhoeddiad ar 28 Ionawr, a sicrhau bod ein trafodaethau yn y Pwyllgor mor adeiladol â phosibl.

[1] 'Diogelu ein Dyfodol Academaidd', 28 Ionawr 2025

Yn gywir,

Buffy Williams AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad A: Cwestiynau ar gyfer yr Athro Wendy Larner am y newidiadau arfaethedig ym Mhrifysgol Caerdydd

A fyddech cystal â darparu'r canlynol i'r Pwyllgor:

- trosolwg o'ch asesiad o'r heriau ariannol sy'n wynebu Prifysgol Caerdydd, gan gyfeirio at ddata allweddol sy'n ategu eich newidiadau arfaethedig (e.e. niferoedd myfyrwyr presennol a niferoedd y gellir eu rhagamcan, cyfraddau manteisio, lefelau cronfeydd wrth gefn Prifysgol Caerdydd, ac ati);
- manylion unrhyw bolisïau penodol ar lefel Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU sydd wedi effeithio'n sylweddol ar allu Prifysgol Caerdydd i weithredu'n gynaliadwy;
- y newidiadau sydd eisoes wedi'u gwneud yn y blynyddoedd diwethaf gennych chi neu eich rhagflaenwyr i liniaru effaith yr heriau ariannol sy'n wynebu Prifysgol Caerdydd;
- eglurhad o'r rhesymeg ar gyfer pob un o'r cynigion allweddol a nodir yn eich datganiad ar 28 Ionawr, gan gynnwys, a yw'r cynnig wedi'i wneud yn gyfan gwbl am resymau ariannol neu resymau eraill hefyd;
- yr arbedion cost disgwyliedig sy'n gysylltiedig â phob un o'r cynigion allweddol fel y nodir yn eich datganiad ar Ionawr 28;
- rhagor o fanylion am yr hyn a fydd yn digwydd ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben a'r amserlenni cysylltiedig (gan gynnwys sut y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn llunio'r cynlluniau terfynol, a phryd y caiff y cynlluniau terfynol hynny eu drafftio); ac
- unrhyw wybodaeth arall y teimlwch sy'n berthnasol i'r cyhoeddiad a wnaed ar 28 Ionawr.